MIS HYDREF 2025

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | Digital Health and Care Wales

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
Wales Accord on the Sharing of Personal Information

20fed Pen-blwydd WASPI 20th Anniversary

# DEWCH I DDATHLU 20 MLYNEDD O WASPI!

Ymunwch â ni ar gyfer digwyddiad arbennig yn Stadiwm Dinas Caerdydd ar 10 Tachwedd 2025 i ddathlu dau ddegawd o Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI).

Disgwylir bod yr agenda yn gymhellol ac yn llawn, gan gynnwys arweinwyr y diwydiant ym maes diogelu data a llywodraethu gwybodaeth, gydag areithiau allweddol gan John Edwards, y Comisiynydd Gwybodaeth a Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio.Agenda lawn ar gyfer ein digwyddiad Cydweithio, Diwylliant a Dathlu WASPI ar 10 Tachwedd 2025.

Agenda Cydweithio, Diwylliant a Dathlu WASPI 2025

Rydyn ni'n edrych ymlaen at ddathlu gyda chi!

## TAITH WASPI



Fel rhan o ddathliadau Pen-blwydd WASPI yn 20 oed, rhannodd Dave Parsons ei feddyliau ar ei ymwneud â WASPI, o'i greu cychwynnol 20 mlynedd yn ôl hyd at ble mae'r fframwaith heddiw gyda'r effaith sylweddol y mae wedi'i chael ar rannu gwybodaeth yng Nghymru.

I ddarllen yr erthygl lawn, cliciwch yma.

## PORTH RHANNU GWYBODAETH

Mae datblygiad y system Porth Rhannu Gwybodaeth (ISG) yn parhau i fynd rhagddo.

Mae'r ISG bellach wedi'i gyflwyno i Grwpiau Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol WASPI Cwm Taf, De Cymru a Gogledd Cymru, a all bellach gael mynediad at hwn a'i ddefnyddio fel eu cofrestr ranbarthol.

Mae gweithdai wedi'u cynllunio gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Rhanbarthol WASPI De Ddwyrain a Gorllewin Cymru a'r Canolbarth yn ystod mis Hydref/Tachwedd 2025.

Bydd diweddariadau pellach ar ddatblygiadau ISG WASPI yn cael eu harddangos yn Nigwyddiad WASPI ar 10 Tachwedd 2025.

Mae tudalen we bellach ar gael gyda gwybodaeth ategol ar Borth Rhannu Gwybodaeth WASPI, gan gynnwys ffurflen gofrestru ar gyfer sefydliadau a hoffai ymuno.

## WASPI YN UWCHGYNHADLEDD FYD-EANG DATA IECHYD CYMRU 2025

Cymerodd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ran yn Uwchgynhadledd Fyd-eang Data Iechyd 2025, a gynhaliwyd ym Mae Caerdydd.




Bu Uwchgynhadledd Hybrid Byd-eang Data Iechyd Cymru 2025 yn dwyn ynghyd arweinwyr gofal iechyd uwch, clinigwyr, llunwyr polisi, gwyddonwyr data, arloeswyr technoleg, ac eiriolwyr cleifion o Gymru, y DU, Iwerddon, a ledled y byd.




Siaradodd Dave Parsons, Rheolwr Cod WASPI, ochr yn ochr â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan roi sgwrs i'r mynychwyr ar feithrin ymddiriedaeth mewn rhannu data, cydymffurfiaeth a moeseg.

Hefyd, rhoddodd Dave gyflwyniad i'r mynychwyr, gan roi trosolwg o WASPI, ei lwyddiannau a'i ddyfodol o dan yr eitem "Trawsnewid Gofal: Sgyrsiau Sydyn am Arloesi a Thegwch".

Hefyd, cynhaliodd Gwasanaeth WASPI arddangosfa, gan dynnu sylw'r mynychwyr at effaith WASPI ar rannu gwybodaeth yng Nghymru dros yr 20 mlynedd diwethaf.

## DIWEDDARIAD COD YMDDYGIAD WASPI

Mae Gwasanaeth WASPI yn parhau i weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud gyda gweithdai terfynol gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'u cynllunio ar gyfer mis Hydref. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd gyda'r Cod arfaethedig.

## WASPI AR Y RHESTR FER AR GYFER 3 GWOBR

Cyflawnodd WASPI gamp nodedig drwy gyrraedd y rhestr fer ar gyfer tair Gwobr PICCASO Ewrop 2025.

Mae'r gydnabyddiaeth arwyddocaol hon gan wobrau blaenllaw Ewrop ym maes preifatrwydd data, diogelwch gwybodaeth a chydymffurfiaeth yn tanlinellu gwaith arloesol WASPI a'i ymrwymiad i ragoriaeth mewn rhannu data'n gyfrifol ers dros 20 mlynedd.

Mae WASPI wedi cyrraedd y rhestr fer yn y categorïau hynod gystadleuol "Gwobr y Rhaglen Preifatrwydd Orau", "Rhaglen Llywodraethu Data a Rheoli Cofnodion y Flwyddyn", a "Tîm Preifatrwydd y Flwyddyn: Cwmni Cyhoeddus". Mae'r tair anrhydedd hon yn dyst i ragoriaeth gynhwysfawr WASPI, ac yn cydnabod ei fframwaith strategol, ei fodel gweithredu cadarn, a gwaith y tîm wrth hyrwyddo rhannu data.



## CONTACT US

For further information and advice view our website or contact us via email.

Website: www.waspi.org

Email: waspiservice@wales.nhs.uk